

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Gwyliau Hanner Tymor

Mae'r cyfle i gael seibiant wedi cyrraedd o'r diwedd! Bydd yr ysgol yn cau heddiw ac yn ail-agor ar ddydd Llun y 6ed o Dachwedd. Mi fydd Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt yn cael eu dathlu yn ystod y gwyliau hanner tymor – cofiwch gadw'n ddiogel ar y nosweithiau hyn. Cafodd y plant ymweliad gan PCSO Nia yn ystod yr wythnos hon – mi fyddan nhw'n medru eich cynghori ar sut i gadw'n ddiogel. Cofiwch hefyd fod y clociau yn mynd yn eu hôl y penwythnos yma!

Diolch i Mr Ifor Davies

Heddiw yw diwrnod olaf Mr Ifor Davies fel Gofalwr a Goruchwyliwr Amser Cinio yn yr ysgol. Diolchwn iddo am ei holl waith ar hyd y 14 mlynedd diwethaf a dymunwn ymddeoliad hapus iddo.



Holiadur Iechyd a Lles – Bl.4-6

Mi fyddwn yn gofyn i'ch plentyn lenwi arolwg byr yn yr ysgol am iechyd a lles fel rhan o'n rhwydwaith iechyd ysgolion cynradd – HAPPEN (www.happen-wales.co.uk). Gofynnir cwestiynau fel faint o ymarfer corff mae'r plentyn yn ei wneud, pa mor dda mae'n gallu canolbwyntio, pa weithgareddau yr hoffai roi cynnig arnynt yn yr ysgol a pha mor hapus mae'r plentyn yn yr ysgol a gyda'i ffrindiau. Defnyddir y canlyniadau i helpu ysgolion sicrhau bod ein disgyblion yn iachach ac yn hapusach.

[Taflen Wybodaeth i Rieni - \(happen-wales.co.uk\)](http://www.happen-wales.co.uk)

Y Gymraeg

Gydag wythnos o wyliau hanner tymor ar y gweill rydym yn credu fod y plant yn haeddu rhoi eu traed lan ac ymlacio! Mae yna sawl ffordd o wneud hyn wrth gwrs: chwarae lego, darllen, cicio pêl ayyb. Os mai gwyllo teledu sy'n mynd â'ch bryd, yna cofiwch fod yna ddewis eang o raglenni Cymraeg gwych ar S4C / Clic – dilynwch y dolenni isod.



Mae yna raglenni addas hefyd ar gyfer oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg

Cymdeithas Rieni ac Athrawon

Mae'r ddolen hon dal ar agor os oes gennych ddi-ddordeb mewn ymuno gyda chriw brwdfrydig y G.Rh.A i godi arian allweddol ar gyfer gwella adnoddau yr Ysgol Gymraeg. Medr wch gyfrannu'n fach neu fawr – beth bynnag yw'ch argaeledd - cwblhewch yr holiadur byr hwn (dim hwy na munud) i rannu'ch gwybodaeth gyda ni os gwelwch yn dda: <https://forms.office.com/e/u2cHY3uAdd>

Ffair Nadolig y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Cynhelir y Ffair Nadolig eleni ar nos Iau y 30ain o Dachwedd, 2023 yn yr ysgol. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn dod â stondin cysylltwch gyda swyddogion C.Rh.A drwy crha.ysgol.gymraeg@gmail.com

Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Cyfarfod Blynyddol y G.Rh.A : Tachwedd 7^{fed} am 4 o'r gloch yn Neuadd yr ysgol.

Ffair Nadolig y G.Rh.A : Tachwedd 30^{ain} yn Neuadd yr ysgol.

Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr 13^{eg} yn y Neuadd Fawr;

Cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig ar ddydd Iau yr 21^{ain} o Ragfyr am 3:30yp.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

27/10/2023

www.ysgolgybraeg.cymru

Please scroll down for English version

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Half Term Holidays

The opportunity to have a rest has finally arrived! The school will close today and re-open on Monday the 6th of November. Halloween and Bonfire Night will be celebrated during the half term holidays - remember to keep safe on these nights. The children were visited by PCSO Nia during this week - they will be able to advise you on how to stay safe. Also remember that the clocks are going back this weekend!

Thank you Mr Ifor Davies

Today is Mr Ifor Davies' last day as Caretaker and Lunchtime Supervisor at the school. We thank him for his work over the last 14 years and wish him a happy retirement.




Health and Wellbeing Questionnaire – Yr.4-6

We will ask your child to complete a short survey at school about health and wellbeing as part of our primary school health network - HAPPEN (www.happen-wales.co.uk). Questions are asked such as how much exercise the child does, how well they can concentrate, what activities they would like to try at school and how happy the child is at school and with their friends. The results are used to help schools ensure that our pupils are healthier and happier.

[Information Sheet - \(happen-wales.co.uk\)](http://www.happen-wales.co.uk)

The Welsh language

With a week of half term holidays coming up we believe the children deserve to put their feet up and relax! There are many ways of doing this of course: playing lego, reading, kicking a ball etc. If watching TV is what takes your fancy, then remember that there is a wide selection of great Welsh programmes on S4C / Clic - follow the links below.



There are also Learners Programmes for adults who are Learning Welsh

Parents and Teachers Association

This link is still open to invite any newcomers to join the enthusiastic crew of the P.T.A to raise key funds for improving the resources of Ysgol Gymraeg. You can contribute a little or a lot - whatever your availability - please complete this short questionnaire (no longer than a minute) to share your information with us: <https://forms.office.com/e/9THvVJbUsK>

Parent and Teacher Association Christmas Fair

The Christmas Fair will be held this year at the school on Thursday night the 30th of November, 2023. If you are interested in bringing a stall please contact the PTA officials via crha.ysgol.gymraeg@gmail.com

Half Term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.

Important dates for next half term

PTA Annual General Meeting: November 7th at 4 o'clock in the School Hall.

PTA Christmas Fair: November 30th in the School Hall.

Christmas Concert: December 13th in the Great Hall;

Closing for the Christmas holidays on Thursday 21st December at 3:30pm.

If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yours sincerely,

Gareth L James

Acting Headteacher

27/10/2023

 www.ysgolgybraeg.cymru